OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 980 (Cy.103)

DRAENIO TIR, CYMRU

Gorchymyn Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru (Cyfansoddiad) 2006

Wedi - - - - 29 Mawrth 2006

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(1)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 16A o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru (Cyfansoddiad) 2006 a daw i rym pan ddaw Gorchymyn 2005 i rym(**2**).

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr Asiantaeth" ("*the Agency*") yw Asiantaeth yr Amgylchedd;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1995" ("*the 1995 Act*") yw Deddf yr Amgylchedd 1995;

ystyr "Gorchymyn 2005" ("*the 2005 Order*") yw Gorchymyn Pwyllgorau Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru, Hafren-Trent a Gogledd-Orllewin Lloegr (Newid Ffiniau) 2005(**3**);

ystyr "y pwyllgor" ("*the committee*") yw Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru, sef y pwyllgor rhanbarthol amddiffyn rhag llifogydd a sefydlwyd gan adran 14 o Ddeddf 1995 ac y mae cynghorau'r bwrdeistrefi sirol a'r siroedd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn gynghorau cyfansoddol ohono.

Cyfansoddiad

2.—(1) Mae'r pwyllgor yn cynnwys y canlynol, ac ni chaiff yr un ohonynt fod yn aelod o'r Asiantaeth, hynny yw—

(**1**) 1995 p.25. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 67 o Ddeddf Dw 246 r 2003 (p.37) (Aelodaeth o bwyllgorau rhanbarthol amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru).
(**2**) Cafodd Gorchymyn 2005 ei wneud ar 24 Medi 2005, a'i osod gerbron y Senedd ar 3 Tachwedd 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2006.
(**3**) O.S. 2005/3047.

(a) cadeirydd a saith aelod arall wedi eu penodi gan y Cynulliad;

(b) dau aelod wedi eu penodi gan yr Asiantaeth; ac

(c) un aelod wedi ei benodi gan bob grwŵp a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen, neu ar ran bob grwŵp, y mae cynghorau'r siroedd a'r bwrdeistrefi sirol a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen yn gynghorau cyfansoddol ohono.

(2) Mae'r penodiadau o dan baragraff (1)(c) i gael eu gwneud gan y cynghorau ym mhob grwŵp yn gweithredu ar y cyd mewn perthynas â'r aelod a benodir dros y grwŵp hwnnw.

(3) Os digwydd na fydd y cynghorau a bennir yn unrhyw grwŵp yn yr Atodlen yn gallu gwneud penodiad o dan baragraff (1)(c), caiff y Cynulliad benodi aelod dros y grwŵp hwnnw ar ran y cynghorau hynny.

(4) Wrth benodi person i fod yn gadeirydd neu'n aelod o'r pwyllgor, rhaid i'r Cynulliad neu gyngor cyfansoddol, yn ôl y digwydd, ystyried y priodoldeb o benodi person sydd â phrofiad o fater, ac sydd wedi dangos gallu mewn mater sydd yn berthnasol i swyddogaethau'r pwyllgor.

Trosiannol

3. At ddibenion y penodiadau cyntaf a wneir gan bob grwŵp dan erthygl 2(1)(c) neu ar ran bob grwŵp o dan erthygl 2(3), mae paragraff 1 (3) o Atodlen 5 i Ddeddf 1995 (tymor swydd aelodau a benodir gan gynghorau cyfansoddol) yn effeithiol gyda'r addasiadau hyn—

(a) yn lle "June" rhodder "April"; a

(b) yn lle "a term of four years" rhodder "a term ending with 31 May 2010".

Dirymu

4. Dirymir Gorchymyn Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd (Rhanbarth Cymru) 1996(**4**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

D. Elis-Thomas
29 Mawrth 2006 — TLlywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) O.S. 1996/538 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1996/1007 ac O.S 2005/3047).
(**5**) 1999 p.38.